Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Casmael

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Wrth galon Ysgol Casmael mae arweinyddiaeth ofalgar a chadarn sy’n creu awyrgylch gynnes, lle mae pob disgybl yn cael ei groesawu a’i werthfawrogi. Mae’r pennaeth a’i thîm yn cydweithio’n effeithiol ar draws y ffederasiwn i greu cymuned hapus a chynhwysol, gan osod hunaniaeth a threftadaeth leol wrth wraidd profiadau’r disgyblion.

Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth, ac yn dangos parch tuag at ei gilydd a’r staff. Ceir perthynas gref rhwng y disgyblion a’r oedolion, gan feithrin ymddygiad arbennig ar draws yr ysgol.

Mae staff yn darparu sesiynau ysgogol, sy’n ysbrydoli disgyblion i ymroi’n frwdfrydig i’w dysgu. Maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu effeithiol, yn cynllunio sesiynau difyr ac ystyrlon, ac yn addasu gweithgareddau’n addas i ddiwallu anghenion bron bob disgybl. Maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion hynaf weithio’n annibynnol. Fodd bynnag, mae tueddiad i staff or-arwain gweithgareddau’r plant ieuengaf gan lesteirio eu gallu i ymchwilio, arbrofi a dysgu’n annibynnol tu fewn a thu allan i’r dosbarth. Mae athrawon yn holi ac yn annog disgyblion yn effeithiol i ehangu eu dealltwriaeth. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn rhannu adborth yn amserol sy’n galluogi disgyblion i adnabod yr hyn maent wedi ei wneud yn dda. Fodd bynnag, nid yw’r adborth bob tro’n nodi camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn ddigon effeithiol er mwyn iddynt ymateb yn fwriadus.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Mae darllen yn elfen ganolog o’r ddarpariaeth, gyda strategaethau effeithiol a llyfrau deniadol yn meithrin brwdfrydedd a hyder. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd arbennig yn eu medrau darllen, sy’n cefnogi eu medrau llythrennedd yn ehangach.

Mae’r ysgol yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth o wahanol ffynonellau i werthuso ei gwaith ac i gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae’r llywodraethwyr yn weithgar, yn adnabod ysgolion y ffederasiwn yn dda, ac yn cefnogi’r ysgol yn effeithiol fel ffrind beirniadol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Ehangu cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf gryfhau eu medrau annibynnol tu fewn a thu allan i'r dosbarth

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2025